



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYFARFOD, DOGFENNU

Uwchgynhadledd canser: 18 Medi 2024

Dyma adroddiad cryno'r uwchgynhadledd weinidogol ar ganser.

Cyhoeddwyd gyntaf: 23 Rhagfyr 2024

Diweddarwyd ddiwethaf: 23 Rhagfyr 2024

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cancer-summit-18-september-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

Cynnwys

Y cefndir (<https://www.llyw.cymru#161855>)

Uwchgynhadledd weinidogol ar ganser (<https://www.llyw.cymru#161857>)

Y cyd-destun strategol (<https://www.llyw.cymru#161859>)

Sefyllfa bresennol gwasanaethau cancer (<https://www.llyw.cymru#161861>)

Dysgu a chynnydd ers yr uwchgynhadledd ddiwethaf
(<https://www.llyw.cymru#161863>)

Canolbwyntio ar lwybrau penodol (<https://www.llyw.cymru#161865>)

Cymorth Gweithrediaeth y GIG (<https://www.llyw.cymru#161867>)

Myfyrdodau (<https://www.llyw.cymru#161869>)

Camau gweithredu a'r camau nesaf (<https://www.llyw.cymru#161871>)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cancer-summit-18-september-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

Y cefndir

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ddatganiad ansawdd ar gyfer cancer** (<https://www.llyw.cymru/y-datganiad-ansawdd-ar-gyfer-cancer>), sy'n disgrifio beth mae da yn ei olygu yng nghyd-destun gwasanaethau cancer ym mhob rhan o Gymru. Mae hyn yn cael ei ategu gan 26 o'r **llwybrau cenedlaethol gorau posibl** (<https://gweithrediaeth.gig.cymru/swyddogaethau/rhwydweithiau-a-chynllunio/cancer/ffrydiau-gwaith/y-llwybr-cancer-sengl/>) ar gyfer pob math o ganser sy'n darparu llwybrau gofal ac iddynt amser penodedig sy'n disgrifio sut y gall sefydliadau gyflawni'r targed ar gyfer y llwybr lle'r amheuir cancer.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun **cynllun adfer ar gyfer gofal a gynlluniwyd ym mis Ebrill 2022** (<https://www.llyw.cymru/trawsnewid-moderneiddio-gofal-gynlluniwyd-lleihau-rhestrau-aros-y-gig>), sy'n nodi'r camau y mae angen eu cymryd i gynyddu gweithgarwch i gefnogi adferiad ar ôl cancer.

Ym mis Ionawr 2023, lansiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y **cynllun gwella gwasanaethau cancer ar gyfer GIG Cymru 2023 to 2026** (<https://executive.nhs.wales/functions/networks-and-planning/cancer/cancer-improvement-plan-docs/full-plan/>). Mae'r cynllun system gyfan hwn yn nodi sut y bydd GIG Cymru yn gwella gofal cancer i gleifion ledled Cymru a'i nod yw gwella ansawdd a chanlyniadau a sicrhau dull cyfannol drwy gydol y llwybr o atal i driniaeth a gofal parhaus. Mae'r cynllun yn annog cydweithio ar draws y system, gan ganolbwyntio ar y priodoleddau a amlinellir yn y datganiad ansawdd ar gyfer cancer.

Yn dilyn uwchgynhadledd weinidogol ar ganser a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2023, comisiynodd Llywodraeth Cymru Weithrediaeth y GIG i ymgymryd ag ymyriad cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar ganser wrolegol, cancer gastroberfeddol isaf a chanser gynaecolegol er mwyn gwella gwasanaeth a phrofiad i gleifion newydd sy'n cychwyn ar eu llwybr cancer a chefnogi

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cancer-summit-18-september-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

datblygiad gwasanaethau cancer gwydn, cynaliadwy a theg ledled Cymru. Dechreuodd y rhaglen cymorth ac ymyrraeth genedlaethol ym mis Mehefin 2023, ac mae rhaglen genedlaethol adfer cancer bellach wedi'i sefydlu i barhau â'r gwaith hwn.

Uwchgynhadledd weinidogol ar ganser

Fe wnaeth yr uwchgynhadledd weinidogol ar ganser a gynhaliwyd ym mis Medi 2024 ddod â swyddogion gweithredol, rheolwyr gweithredol, arweinwyr clinigol, uwch-nyrsys, a rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru at ei gilydd i drafod a chytuno ar gamau i wella canlyniadau a pherfformiad cancer. Roedd ffocws yr uwchgynhadledd ar 3 math o ganser (canser y fron, canser gastroberfeddol isaf a chanser wrolegol) gyda'r bwriad o gytuno ar gamau gweithredu, rhannu arferion gorau, a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i wella.

Y cyd-destun strategol

Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol yr ymrwymiad i wella mynediad i bobl lle ceir amheuaeth o ganser a gwella canlyniadau i bobl sydd wedi cael diagnosis o ganser. Nodwyd y disgwyliadau ar gyfer GIG Cymru:

- rhoi'r llwybrau cenedlaethol gorau posibl ar waith a lleihau'r bylchau mewn llwybrau trwy welliannau y cytunwyd arnynt fel anfon yn syth i gael profion a chynnig ymchwiliadau dilynol ar yr un diwrnod
- parhau i ganolbwyntio ar leihau nifer y bobl sy'n aros 62 diwrnod a mwy i ddechrau eu triniaeth bendant gyntaf
- parhau i wella'r amser aros ar gyfer apwyntiad cleifion allanol a diagnostig cyntaf

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cancer-summit-18-september-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

- parhau i wella perfformiad tuag at y targed perfformiad y cytunwyd arno yn lleol

Amlygwyd mynd i'r afael â'r amseroedd aros presennol a'r amrywiad mewn perfformiad fel blaenoriaeth allweddol. Bydd angen i fyrddau iechyd weithredu'r llwybrau cenedlaethol gorau posibl, sicrhau bod y llwybr atgyfeirio yn gywir; canolbwyntio ar wella'r amser at y cyswllt cyntaf â chleifion, gwella'r ddarpariaeth ar gyfer anfon yn syth i gael profion a mynediad at ddiagnosteg; a buddsoddi mewn capasiti'r gweithlu.

Dylai byrddau iechyd sicrhau bod yr holl gapasiti sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio'n briodol a manteisio ar unrhyw ddatblygiadau technolegol a digidol fel e-gyfeirio i helpu i wella effeithlonrwydd. Rhaid cefnogi'r rhain gan newidiadau i fodolau gwasanaeth i greu gwasanaethau mwy cynaliadwy a lle bo angen dylent weithio'n rhanbarthol i fynd i'r afael â gwasanaethau bregus.

Gofynnwyd i fyrddau iechyd gymryd camau i leihau a chynnal nifer y cleifion sy'n aros 62 diwrnod a mwy i ddechrau eu triniaeth ganser ddiffiniol gyntaf a gweithredu'r cynllun trawsnewid llwybrau, gyda chefnogaeth gan y rhaglen genedlaethol adfer canser.

Sefyllfa bresennol gwasanaethau canser

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cenedlaethol Perfformiad a Sicrwydd Gweithrediaeth y GIG drosolwg o sefyllfa bresennol gwasanaethau canser. Y pwyntiau allweddol oedd:

- mae perfformiad yn parhau i fod yn is na'r disgwyliadau ac nid yw taflwybrau ar y trywydd iawn i gyflawni'r gwelliant gofynnol yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol
- mae'r system yn parhau i fod yn aflwyddiannus o ran lleihau'r nifer sydd ar

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cancer-summit-18-september-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

- restrau aros ar bob cam o'r llwybr ar gyfer y safleoedd cancer mwyaf heriol
- mae nifer y cleifion sy'n aros 62 diwrnod a mwy i ddechrau eu triniaeth ddifiniol gyntaf yn rhy uchel ac ni ellir cyflawni sefyllfa gynaliadwy yn seiliedig ar lefelau presennol o alw a chapasiti
 - mae nifer y cleifion sy'n ymuno â'r llwybr yn parhau i gynyddu, tra bod nifer y canserau a gadarnhawyd yn parhau'n gyson
 - dylai byrddau iechyd a gefnogir gan Weithrediaeth y GIG gynnal dadansoddiad ac adolygiadau o lwybrau er mwyn deall y llwybrau atgyfeirio presennol a pha waith sydd ei angen gyda gofal sylfaenol i ddeall ymddygiad atgyfeirio
 - mae'r galw wedi cynyddu 20% ers 2022 ac mae amrywiaeth yn niferoedd atgyfeirio lleol ar draws mathau o ganser, yn enwedig o ran cancer y croen, cancer wrolegol a chanser y fron
 - yn hanesyddol, nid yw lefelau gweithgarwch cleifion â chanser wedi cadw i fyny â'r galw
 - nid yw'r nod diagnostig 28 diwrnod yn y llwybrau cenedlaethol gorau posibl yn cael ei gyflawni
 - mae gweithredu'r llwybrau cenedlaethol gorau posibl yn allweddol i ysgogi gwelliannau o ran darparu gwasanaethau a lleihau amrywiaeth ar draws byrddau iechyd
 - mae'n rhaid i sefydliadau GIG Cymru sicrhau gwelliant a lle bo'n briodol croesawu cyfleoedd i weithio ar sail ranbarthol

Dysgu a chynnydd ers yr uwchgynhadledd ddiwethaf

Amlygodd Cyfarwyddwr Cenedlaethol y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Wedi'i Gynllunio y cynnydd a wnaed ers yr uwchgynhadledd ganser a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2023:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cancer-summit-18-september-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

- cynhaliwyd cyfres o weithdai cenedlaethol i drafod sut y gellir gwella cynhyrchiant ar gyfer llwybrau cancer wrolegol, cancer gastroberfeddol isaf a chanser gynaecolegol
- mae rhaglen adfer cancer wedi'i sefydlu a datblygwyd cynllun gwaith manwl i gefnogi sefydliadau'r GIG yng Nghymru i weithredu'r llwybrau cenedlaethol gorau posibl ar draws 5 math o ganser (y fron, gynaecolegol, gastroberfeddol isaf, y croen ac wrolegol)
- mae lefelau cynyddol o weithio rhanbarthol lle mae breuder wedi'i nodi ar draws gwasanaethau a diagnosteg
- mae ffyrdd gwell o gasglu a chofnodi data ar waith i helpu sefydliadau GIG Cymru gyda'r galw a chynllunio capasiti trwy ddatblygu offer deallusrwydd busnes ar gyfer cancer
- mae clinigau diagnostig cyflym wedi'u sefydlu ac mae sefydliadau GIG Cymru bellach yn gweithio tuag at wella gwasanaethau oncoleg aciwt yn unol â'r fanyleb gwasanaeth
- mae cynllun gweithlu diagnostig wedi'i gymeradwyo a fydd yn canolbwyntio ar ddelweddu, endosgopi a phatholeg, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r rhaglen ddiagnostig genedlaethol
- gwnaed gwelliannau yn y llwybrau HRT, gwaedu ar ôl y menopos a gynaecolegol drwy gydweithio'n agosach â'r:
 - rhwydwaith clinigol strategol cenedlaethol ar gyfer iechyd menywod
 - rhwydwaith clinigol strategol cenedlaethol ar gyfer cancer
 - rhwydwaith gweithredu clinigol gynecolegol (CIN)

Canolbwyntio ar lwybrau penodol

Cafwyd cyflwyniadau byr a oedd yn canolbwyntio ar 3 llwybr.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cancer-summit-18-september-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

Wroleg

Amlygodd yr arweinydd clinigol ar gyfer y grŵp safle canser wroleg fod perfformiad wroleg ar lefel Cymru gyfan wedi bod tua 40% cyn y pandemig ac er bod rhai byrddau iechyd wedi gweld rhywfaint o welliannau, mae'r lefelau perfformiad cyffredinol yn parhau i fod yn sylweddol is na'r lefel darged. Awgrymwyd bod y rhesymau dros hyn oherwydd mwy o atgyfeiriadau, capasiti amrywiol oherwydd materion gweithlu ac ystadau, amrywiad i ymarfer ac amseroedd aros ledled Cymru. Mae prinder staff yn effeithio ar wasanaethau sy'n effeithio ar y gallu i uwchsgilio staff presennol.

Mae yna awydd am newid ac mae nifer o welliannau bellach yn dechrau cael effaith gan gynnwys gweithredu a sefydlu'r gwasanaeth abladiad laser traws wrethrol (TULA) ar draws pob bwrdd iechyd a'r cynnydd mewn capasiti robotig ym myrddau iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac Aneurin Bevan. Mae cyfleoedd ar gyfer gwaith mwy rhanbarthol ac mae angen gwelliannau ar gyfer adrodd am brofion diagnosteg.

Cytunwyd ar y camau canlynol:

- datblygu data amser real fesul safle/pwynt llwybr canser er mwyn gweld ble mae capasiti ar gael, a chefnogi mynediad a gweithio rhanbarthol
- uwchsgilio'r gweithlu nyrsio, gan gynnwys biopsi prostad a arweinir gan nyrsys clinigol arbenigol a chystosgopi hyblyg, yn ogystal â rhaglen hyfforddi achrededig ffurfiol
- gwella capasiti a phrosesau adrodd yn y maes patholeg
- cydweithio ag AaGIC i ddatblygu strategaeth y gweithlu sy'n canolbwyntio ar ddenu hyfforddeion a chadw ymgeiswyr o ansawdd uchel

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cancer-summit-18-september-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

Gastroberfeddol isaf

Amlygodd yr arweinydd clinigol ar gyfer grŵp safle cancer y colon a'r rhefr fod perfformiad ar draws pob bwrdd iechyd ar gyfer cancer gastroberfeddol isaf yn parhau i fod yn anodd, mae nifer y cleifion sy'n aros wedi mwy na dyblu o gymharu â lefelau cyn y pandemig. Er mwyn cefnogi gwelliannau i'r llwybr, mae byrddau iechyd yn ceisio gweithredu cyfnodau disgwyl yn y llwybr gyda'r bwriad o gwblhau'r cam diagnostig erbyn diwrnod 28 a'r cam triniaeth o fewn 21 diwrnod. Mae hyn yn heriol i ddiagnosteg gyda'r seilwaith cyfredol, nifer yr endosgopyddion hyfforddedig a'r lefelau cyfredol o ran capasiti endosgopi. Ar gyfer triniaeth, mae mwy 60% a mwy o gleifion angen llawdriniaeth fel eu triniaeth ddiffiniol gyntaf ac mae amrywiaeth mewn asesu cyn llawdriniaeth a gwasanaethau rhag-sefydlu, mynediad i'r theatr, a defnydd o lawdriniaethau robotig.

Y fron

Amlygodd yr arweinydd clinigol ar gyfer grŵp safle cancer y fron y bu cynnydd sylweddol ar draws llwybr y fron ac mae gwasanaethau'n adrodd eu bod yn fwy cynaliadwy a fydd yn arwain at well perfformiad a chanlyniadau gwell i gleifion. Mae'r gwelliannau'n cynnwys:

- gweithredu'r llwybr cenedlaethol gorau posibl ar gyfer cancer y fron
- datblygu llwybr cenedlaethol gorau posibl cyntaf y DU ar gyfer cancer metastatig y fron
- llwybr ar gyfer defnyddio atalyddion PARP mewn cleifion â chanser etifeddol y fron (cludwyr genynnau BRCA)
- llwybr atal cemotherapi i fenywod sydd â risg uchel o ddatblygu cancer y fron
- sefydlu unedau wedi'u hadeiladu'n bwrpasol fel canolfannau'r fron sy'n darparu gwasanaethau o un safle yn Abertawe, Caerdydd, Llantrisant ac Ystrad Mynach

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cancer-summit-18-september-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

- gostyngiad yn yr amser aros ar gyfer apwyntiad cyntaf o 14 i 16 wythnos i 2 i 3 wythnos
- prawf o gysyniad o gydweithio, cynllun grŵp safle cancer ar ôl y pandemig wedi lleihau amseroedd aros o 16 i 4 wythnos

Roedd yr heriau i'r gwasanaeth yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r targedau cancer presennol yn ymwneud â dechrau'r driniaeth ddiffiniol gyntaf ac nid yw'n cynnwys y therapi cyffur ategol, sy'n effeithio ar ganlyniadau cancer, na llawdriniaeth ar unwaith i adlunio'r fron i gleifion sy'n cael masectomi, sy'n effeithio ar brofiad cleifion.
- Amrywiad mewn ymarfer clinigol wrth drin cancer y fron nod positif. Ar hyn o bryd, mae radiotherapi ceseiliol ar gael yn y gorllewin a'r gogledd, ond nid yw ar gael yn y de-ddwyrain lle mai clirio nodau ceseiliol yw'r driniaeth safonol.
- Mae oedi mewn llawdriniaethau i adlunio'r fron i gleifion sy'n cael masectomi yn effeithio ar ganlyniadau corfforol, seicolegol, emosiynol a rhywiol.
- Daeth y datganiad o fwriad ar gyfer gwasanaethau delweddu diagnostig a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 i'r casgliad bod gan Gymru saith radiologydd i bob 100,000 o'r boblogaeth o gymharu â chyfartaledd Ewropeaidd o 12 a daeth y papur ar "ddelweddu'r fron" gan Gydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru i'r casgliad bod y sefyllfa i radiolegwyr y fron yn waeth. Byddai'r rhagamcanion o alw cynyddol, anhawster recriwtio ac ymddeoliadau sydd ar ddod, yn gwneud y sefyllfa'n anoddach.
- Mae gwasanaethau symptomau a sgrinio yn cael eu rhedeg yn annibynnol ond yn defnyddio'r un capasiti. Amlygwyd yr angen am gydweithio a rhoddwyd ystyriaeth i gydleoli gwasanaethau sgrinio a symptomatig i ddarparu dull cydweithredol ar gyfer yr un gronfa o glinigwyr medrus iawn. Byddai model integredig yn canolbwyntio ar y staff medrus iawn, sy'n gallu gweithio'n hyblyg a chroesi o un gwasanaeth i'r llall pan fo angen a darparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cancer-summit-18-september-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

Themâu craidd

Roedd sawl thema gyffredin sy'n berthnasol i bob safle tiwmor fel a ganlyn:

- gweithredu'r llwybrau cenedlaethol gorau posibl
- gweithio gydag AaGIC ar strategaethau tymor hwy ar gyfer cadw a recriwtio'r gweithlu
- gweithio rhanbarthol a chydweithio effeithiol

Cymorth Gweithrediaeth y GIG

Amlygodd Pwyllgor Gweithrediaeth y GIG y gefnogaeth sydd ar gael i sefydliadau GIG Cymru i wella gwasanaethau cancer:

- datblygu a gweithredu'r llwybrau cenedlaethol gorau posibl
- rhannu dysgu ac arferion da
- cefnogaeth gwella ansawdd i dimau amlddisgyblaethol
- systemau gwybodaeth rheoli i fapio'r galw ar draws moddau
- lleihau amrywiaeth ar draws sefydliadau GIG Cymru
- ymgymryd â dadansoddiad o'r bylchau
- cefnogi gweithio cydweithredol neu ranbarthol

Myfyrdodau

Mae'r galw ar wasanaethau cancer, fel y'i mesurwyd gan nifer y llwybrau a agorwyd ar y llwybr lle'r amheuir cancer wedi cynyddu ers cyflwyno'r cynllun adfer ar gyfer gofal a gynlluniwyd ym mis Ebrill 2022.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cancer-summit-18-september-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

Mae arosiadau'n cael eu gyrru'n bennaf gan oedi yng nghanau cynnar y llwybr yn apwyntiad cyntaf cleifion allanol ac yn y camau diagnosteg. Yn aml mae'r rhain yn wasanaethau sy'n gorfod cydbwysu'r galw ehangach am ofal a gynlluniwyd a brys clinigol lle'r amheuir cancer. Mae heriau ehangach o ran capasiti mewn patholeg, delweddu ac endosgopi felly'n effeithio'n sylweddol ar y llwybr cancer.

Datblygwyd strategaeth ddiagnostig i gefnogi datblygiad gwasanaethau diagnostig mwy cynaliadwy a bydd y cynllun gweithredu yn cael ei gyhoeddi yn dilyn ymgynghoriad.

Mae'n bwysig i fyrddau iechyd barhau i ganolbwyntio ar adfer gwasanaethau cancer, cynnal cydbwysedd o drin cleifion sydd â brys yn glinigol a lleihau'r ôl-groniad o bobl sy'n aros mwy na 62 diwrnod i ddechrau triniaeth. Mae mynd i'r afael â'r ôl-groniad yn effeithio ar y capasiti i drin y rhai sy'n dal i aros o fewn yr amserlen darged.

Camau gweithredu a'r camau nesaf

Cytunwyd ar yr ymrwymïadau a'r camau gweithredu canlynol a bydd y cynnydd yn erbyn y rhain yn cael ei fonitro:

- y byrddau iechyd i weithredu'r llwybrau cenedlaethol gorau posibl a lleihau'r amrywiad mewn llwybrau trwy fodelau un stop, lle bo hynny'n briodol
- y byrddau iechyd i gytuno gyda Gweithrediaeth y GIG ar darged ar gyfer lleihau, mewn modd cynaliadwy, nifer y bobl sy'n aros yn hir yn seiliedig ar y lefelau sy'n ofynnol i sicrhau'r gydymffurfiaeth darged, a chymryd camau brys ac uniongyrchol i leihau nifer y cleifion sy'n aros mwy na 62 diwrnod i ddechrau eu triniaeth bendant gyntaf
- y byrddau iechyd, gyda chymorth gan Weithrediaeth y GIG, canolbwyntio ar leihau'r amser i'r apwyntiad cyntaf yn yr adran gleifion allanol, cynyddu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cancer-summit-18-september-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).

achosion o anfon yn syth i gael profion, a sicrhau bod yr holl weithgarwch diagnostig yn cael ei gwblhau o fewn 28 diwrnod

- gweithrediaeth y GIG i drafod opsiynau gydag AaGIC i helpu i gadw, recriwtio ac uwchsgilio'r gweithlu canser
- gweithrediaeth y GIG i hwyluso gweithio ar y cyd a gweithio rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau arbenigol a bregus

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcyrmru) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcyrmru>) i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cancer-summit-18-september-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybodaeth am [hawlfraint](https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint) (<https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint>).